A. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Rhaid anfon **pob** Asesiad Effaith ar Hawliau Plant i CRIA@llyw.cymru


Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol wrth arfer unrhyw rai o'u pwerau.

Proses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yw'r mecanwaith y cytunwyd arno y dylai swyddogion ei ddefnyddio i gefnogi Gweinidogion i gyflawni'r ddyletswydd hon a sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth gytbwys i hawliau plant wrth wneud penderfyniadau. Dylid defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i lywio cyngor gweinidogol a rhaid ei gwblhau cyn gwneud penderfyniad gweinidogol. Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud, rhaid cyhoeddi eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hefyd.

---

*Noder bod gennym Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant ers tro, sy'n cynnwys swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, UNICEF, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, a Plant yng Nghymru, y gellir ei ddefnyddio i drafod neu brofi eich Asesiad drafft. Cysylltwch â'r Gangen Plant CRIA@llyw.cymru am ragor o wybodaeth.*

---




---

*I gael rhagor o gyngor ac arweiniad ar broses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, cysylltwch â'r Llawlyfr Staff neu cysylltwch â'r Gangen Plant CRIA@llyw.cymru*

---

# Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant: Strategaeth Genedlaethol ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol (2026-2036)

## Amcanion y polisi

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi strategaeth ddeg mlynedd ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru. Fe'i datblygwyd mewn ymateb i alwadau gan randdeiliaid am weledigaeth fwy hirdymor ar gyfer mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol yn dilyn cyflawni'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol tair blynedd (2019-2022) ar gyfer Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Mae'r Strategaeth yn ymdrin â phob math o niwed rhywiol sy'n effeithio ar unigolion dan 18 oed, yn cynnwys babanod, plant a phobl ifanc, ac mae'n cwmpasu goroeswyr sy'n oedolion, fel rhieni neu ofalwyr.

Mae cam-drin plant yn rhywiol yn torri hawliau plant yn ddifrifol, gyda chanlyniadau ofnadwy a hirdymor i ddioddefwyr-oroeswyr, eu teuluoedd a chymdeithas. Mae mynd i'r afael â'r mater hwn yn gofyn am ddull cynhwysfawr a chydgysylltiedig sy'n cwmpasu atal, adnabod yn gynnar, ymateb effeithiol a chymorth parhaus.

Mae 'dull system gyfan' yn dibynnu'n fawr ar bartneriaethau cydgysylltiedig a chryf ar draws pob asiantaeth ddiogelu, o arweinwyr gwleidyddol a strategol i ymarferwyr rheng flaen, ac mae'n cwmpasu atal cyffredinol hyd at ymyriadau statudol.

Rhaid i unrhyw gydweithredu amlasiantaethol gael ei ymwreiddio mewn **parch ar y naill ochr a'r llall, dealltwriaeth gyffredin, a chydymrwymiad i weithredu ynghyd ac yn ddibetrus.** Er mwyn cyflawni hyn, rhaid inni wneud y canlynol:

- Datblygu dealltwriaeth gyffredin o gam-drin plant yn rhywiol.
- Cadarnhau rolau a chyfrifoldebau ar draws asiantaethau a sefydliadau.
- Rhoi blaenoriaeth i rannu gwybodaeth yn amserol ac yn effeithiol.
- Sicrhau bod y cymorth a roddir i blant, teuluoedd a dioddefwyr-oroeswyr yn cael ei gydgysylltu'n dda a'i fod yn ymatebol i'w hanghenion.

Mae'r strategaeth hon yn mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol a'i effeithiau drwy gydol bywyd, gan ymdrin â phob lleoliad, ar-lein ac all-lein; o fewn sefydliadau, teuluoedd, grwpiau cymdeithasol, a chymunedau; a pha un a gaiff ei gyflawni gan unigolion, grwpiau, oedolion, neu blant eraill.

Mae'r strategaeth drawslywodraethol hon yn ymrwymiad deg mlynedd ar gyfer mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol. Dyma'r weledigaeth strategol:

'Mae pob plentyn yng Nghymru yn byw eu bywydau'n rhydd o gam-drin plant yn rhywiol ac mae pawb sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi drwy gydol eu hoes.'

Dyma amcanion strategol lefel uchel y Strategaeth:

- Atal cam-drin plant yn rhywiol;
- Amddiffyn plant ac ymateb yn effeithiol pan fo pryderon am gam-drin plant yn rhywiol;
- Cefnogi plant, rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin, brodyr a chwiorydd ac aelodau eraill o'r teulu;
- Cefnogi oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr.

Rydym wedi pennu meysydd trawsbynciol oddi mewn i Lywodraeth Cymru ac rydym wedi nodi manylion y meysydd polisi sy'n cynnig tystiolaeth helaeth i ategu'r Strategaeth.

Mae hyn yn cynnwys ymgynghori gyda'r meysydd polisi canlynol:

- Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)
- Cymorth i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal a/neu geiswyr lloches digwmni
- Caethwasiaeth fodern
- Tegwch mewn addysg, yn cwmpasu diogelu mewn addysg
- Diogelu iechyd
- NYTH/NEST
- Straen Trawmatig Cymru
- Rhwydwaith sy'n Ystyriol o Drawma
- Tai
- Gofal plant a'r blynyddoedd cynnar
- Diogelwch ar y rhyngrwyd/niwed ar-lein

Mae pob un o'r meysydd polisi hyn yn croestorri gyda nodau ein strategaeth, a byddwn yn sefydlu grŵp cynghori mewnol ar bolisïau er mwyn sicrhau y bydd modd cyflawni'r holl waith yn gydlynus wrth symud ymlaen.

Fel atodiad i'r Strategaeth, rydym wedi cynnwys grid cyfeirnod a naratif sy'n esbonio'r cydberthnasau gyda'r meysydd polisi hyn.

Isod, nodir cynlluniau trawsbynciol. Dros y deg mlynedd nesaf, bydd y cynlluniau hyn yn cyfrannu at gyflawni'r strategaeth hon, a hefyd bydd y strategaeth yn cyfrannu at eu cyflawni hwythau.

- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

- Cynllun Gweithredu LHDTC+
- Gweithredu ar Anabledd: Hawl i Fyw'n Annibynnol
- Cynllun Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau

Sylwer: Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yw hwn, ac mae'n ymwneud yn benodol â'r Strategaeth Genedlaethol ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol (2026-2036). Fodd bynnag, mae gan bolisïau allweddol eraill a luniwyd gan Lywodraeth Cymru (ac sy'n sail i'r Strategaeth) eu hasesiadau effaith eu hunain, a defnyddiwyd yr asesiadau hyn i lywio datblygiad yr asesiad hwn. Bydd yr Asesiadau Effaith hyn hefyd wedi cael eu datblygu trwy ymgysylltu'n barhaus gyda phlant a phobl ifanc.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cyflwyno egwyddor sylfaenol – sef bod diogelu plant rhag niwed yn gyfrifoldeb sy'n perthyn i bob unigolyn a phob asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant a'u teuluoedd, a chydag oedolion a allai esgor ar risg i blant. Mae'r Strategaeth yn ymwneud yn uniongyrchol â'r erthyglau canlynol:

- Erthygl 2 – yr hawl i fywyd – mae'n berthnasol i bawb, ni waeth be fo'u hil, eu crefydd, eu galluoedd, ni waeth be fônt yn ei feddwl neu'n ei ddweud ac ni waeth sut fath o deulu maent yn perthyn iddo.
- Erthygl 3 – rhaid i bob penderfyniad a cham gweithredu mewn perthynas â phlant roi blaenoriaeth i les pennaf plant.
- Erthygl 6 – yr hawl i fyw a datblygu'n iach.
- Erthygl 12 – yr hawl i glywed eu lleisiau mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- Erthygl 13 – yr hawl i wybodaeth.
- Erthygl 16 – yr hawl i breifatrwydd.
- Erthygl 17 – yr hawl i wybodaeth ddibynadwy.
- Erthygl 19 – yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod.
- Erthygl 23 – dylai plant anabl gael gofal a chymorth arbennig.
- Erthygl 24 – yr hawl i'r iechyd gorau posibl.
- Erthygl 29 – dylai addysg plant feithrin eu datblygiad llawn, eu hawliau dynol, eu hamrywiaeth diwylliannol, a'r amgylchedd.
- Erthygl 24 – yr hawl i gael eu cadw'n ddiogel rhag cam-drin rhywiol a chamfanteisio.
- Erthygl 36 – yr hawl i gael eu cadw'n ddiogel rhag niwed i'w datblygiad.
- Erthygl 39 – yr hawl i adfer ar ôl trawma a'r hawl i ailintegreiddio.

- Erthygl 42 – yr hawl i gael gwybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Ymhellach, wrth lunio'r Strategaeth rydym wedi defnyddio dull sy'n seiliedig ar hawliau plant, yn unol ag egwyddorion 'Y Ffordd Gywir' (Comisiynydd Plant Cymru).

**Cyffredinrwydd**

Mewn perthynas â chyffredinrwydd, cyhoeddodd y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol adroddiad ym mis Mehefin 2021, yn dwyn y teitl *'Graddfa a natur y cam-drin plant yn rhywiol: Adolygu'r dystiolaeth'*[1]*. (Dyma fersiwn ddiwygiedig o'r adolygiad tystiolaeth a luniwyd gan y Ganolfan Arbenigedd, sef 'Mesur natur a graddfa newidiol cam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant', a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2017 ac a ddiweddarwyd yn 2018).*

Nododd yr adroddiad hwn y penawdau canlynol mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr:

- Caiff 500,000 o blant a phobl ifanc eu cam-drin yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn.
- Caiff 15% o fenywod a 5% o wrywod yng Nghymru a Lloegr eu cam-drin yn rhywiol cyn iddynt gyrraedd 16 oed.
- Plant a phobl ifanc yw'r dioddefwyr yn achos 40% o'r holl droseddau rhywiol a gyflawnir, er eu bod yn cyfateb i 20% yn unig o'r boblogaeth.
- O gymharu â'r nifer a gofnodir gan yr heddlu neu a bennir gan wasanaethau amddiffyn plant, mae llawer mwy o blant yn cael eu cam-drin yn rhywiol.
- Mae ble y mae plant yn byw yn effeithio ar y tebygolrwydd y bydd eu camdriniaeth yn cael ei chanfod ac y bydd rhywbeth yn cael ei wneud ynglŷn â'r mater.
- Nid yw plant o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn data asiantaethau.

Amcangyfrifir bod 25,000 o blant a phobl ifanc yn cael eu cam-drin yn rhywiol yng Nghymru bob blwyddyn. Yng Nghymru, mae adroddiad y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol – sef *Cam-drin plant yn rhywiol yn 2023/24: Tueddiadau mewn data swyddogol*[2] – yn dangos bod bron i 6,000 o droseddau cam-drin plant yn rhywiol wedi cael eu cofnodi gan yr heddlu yn 2023/24, ond mai 14% yn unig o ymchwiliadau yng Nghymru ar arweiniodd at benderfynu cyhuddo'r troseddwr/troseddwyr.

---

[1] Graddfa a natur y cam-drin plant yn rhywiol: Adolygu'r dystiolaeth
[2] Cam-drin plant yn rhywiol yn 2023/24: Tueddiadau mewn data swyddogol

*Sylwer: i ryw raddau, efallai fod a wnelo hyn ag arferion cofnodi a'r ffaith bod enwau plant yn cael eu hychwanegu at y Gofrestr Amddiffyn Plant o dan gategorïau eraill e.e. esgeulustod. Mae rhagor o waith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i ddeall hyn yn well.*

Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae nifer y plant a roddir ar y gofrestr amddiffyn plant o dan y categori 'cam-drin rhywiol' wedi gostwng yn raddol yng Nghymru (Karsna a Kelly, 2021). Yn 2023/24, rhoddwyd bron i 200 o blant yng Nghymru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant gan eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, sef 15% yn llai na'r flwyddyn flaenorol, gan gyfateb i 5% yn unig o'r holl gofrestriadau a wnaed yn ystod y flwyddyn honno.


Gwelir amrywio mawr ymhlith awdurdodau lleol o ran y modd maent yn ychwanegu plant at y gofrestr oherwydd cam-drin rhywiol: yn 2023/24, roedd cyfran y plant a roddwyd ar y rhestr oherwydd eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn amrywio o 0% i 19% o'r holl gofrestriadau amddiffyn plant.

Nid Cofrestriadau Amddiffyn Plant yw'r unig ddull a ddefnyddiwn i geisio canfod cyffredinrwydd cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru. Mae'r dull hwn yn cyfeirio at nifer y plant a'r bobl ifanc a chanddynt gynllun amddiffyn gofal a chymorth, ac mae'n golygu bod eu henwau wedi cael eu hychwanegu at y Gofrestr Amddiffyn Plant oherwydd niwed/cam-drin rhywiol.

Yn Ffigur 1 isod, dangosir natur gudd a hollbresennol cam-drin plant yn rhywiol. Dangosir bod gwasanaethau statudol, ar hyn o bryd, yn cynorthwyo lleiafrif bach o blant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol ac sydd wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, tra bydd nifer o blant eraill yn cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng cynllun gofal a chymorth; ac efallai nad yw nifer o blant wedi dod i sylw'r gwasanaethau amddiffyn plant o gwbl. Ategir hyn gan ganfyddiadau sydd wedi deillio o waith ymchwil arall.[3]

[3] CSA-in-Wales-childrens-services-Welsh-briefing.pdf, Roberts S. 2020

## Mae llawer mwy o blant yn cael eu cam-drin yn rhywiol nag a nodir gan wasanaethau yng Nghymru




**Plant sy'n wynebu risg uwch o gael eu cam-drin yn rhywiol**

Gall cam-drin plant yn rhywiol effeithio ar unrhyw blentyn, ond mae rhai grwpiau'n wynebu risg uwch oherwydd ffactorau unigol, teuluol, cymdeithasol a chyd-destunol.

Llwyddodd sylfaen dystiolaeth y strategaeth i bennu ffactorau bregusrwydd hollbwysig mewn perthynas â'r plentyn, y teulu, a'r amgylchedd sy'n gysylltiedig â chynyddu'r tebygolrwydd y bydd cam-drin plant yn rhywiol yn digwydd:-

- Mae merched yn llawer mwy tebygol o fod yn ddioddefwyr; mae 82% o ddioddefwyr sydd dan 18 oed yn fenywod.
- Pobl ifanc (12-17 oed) yw'r grŵp oedran sy'n wynebu'r risg fwyaf – sef 66% o'r holl ddioddefwyr sydd dan 18 oed.
- Hefyd, mae plant dan 4 oed yn wynebu risg uwch oherwydd eu dibyniaeth a'u gallu cyfyngedig i gyfathrebu.
- Mae plant ag anableddau corfforol, deallusol a datblygiadol, neu blant â chyflyrau iechyd cronig, yn wynebu risg uwch oherwydd rhwystrau cyfathrebu ac oherwydd eu dibyniaeth ar ofalwyr.
- Mae anghenion ychwanegol yn cynyddu'r straen ar ofalwyr, a chydnabyddir bod hyn yn ffactor risg.
- Cam-drin rhywiol blaenorol a ddioddefwyd gan y plentyn neu ei frodyr/chwiorydd.
- Erledigaeth flaenorol o unrhyw fath.
- Mae cam-drin domestig, llawer o wrthdaro, cyfathrebu gwael, a thrais mewn cydberthnasau personol yn cynyddu'r risg.

- Os yw’r rhiant/rhieni yn dioddef problemau iechyd meddwl, yn camddefnyddio sylweddau neu’n dioddef straen fawr wrth fagu plant, gall hynny gynyddu’r risg.
- Mae teuluoedd sy’n dioddef ynysigrwydd cymdeithasol yn arddangos risg uwch.
- Hanes o gam-drin plant ym mywyd y rhiant.
- Plant hil leiafrifiedig.
- Plant mudol.
- Plant sy’n dioddef amddifadedd economaidd-gymdeithasol.
- Plant sy’n ymhél yn fawr â mannau digidol, heb fesurau diogelu neu oruchwyliaeth briodol.

Yn aml, mae plant â’r **risg gyfunol uchaf** yn ymgyflwyno gydag amryfal ffactorau gorgyffyrddol (croestoriadedd), megis:

- Pobl ifanc benywaidd (12-17 oed) sydd wedi dioddef erledigaeth o’r blaen
- Plant ag anableddau mewn teuluoedd sy’n dioddef trais domestig neu ynysigrwydd cymdeithasol
- Plant o gymunedau a ymyleiddiwyd, nad oes ganddynt fynediad digonol at wasanaethau diogelu
- Pobl ifanc sy’n defnyddio platfformau ar-lein yn helaeth, heb oruchwyliaeth ddigonol gan oedolyn

Mae pob ffactor yn dwysáu bregusrwydd, ac mae **risg gyfunol yn mwyhau’r niwed yn fawr.**

Gellir dod o hyd i grynodeb o waith ymchwil yn ymwneud â mathau penodol o niwed rhywiol – e.e. cam-drin rhywiol gan frodyr a chwiorydd, ymddygiadau rhywiol niweidiol a chamfanteisio’n rhywiol ar blant – yn y ddogfen strategaeth.

**Lleisiau plant a phobl ifanc**

Mae cam-drin plant yn rhywiol yn bwnc anodd iawn i bawb. Er mwyn lleihau’r risg o aildrawmateiddio plant a phobl ifanc, fe wnaethom gomisiynu Adolygiad Cyflym o’r gwaith ymchwil rhyngwladol a gynhaliwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf – sef gwaith ymchwil a oedd yn cynnwys siarad gyda phlant a gwrando ar blant, a lle mynegodd plant safbwyntiau ynglŷn ag effeithiolrwydd yr ymateb diogelu amlasiantaethol i gam-drin plant yn rhywiol. Gofynnwyd i’r awdur gofnodi arferion da a bennwyd gan blant a phobl ifanc, yn ogystal â chofnodi unrhyw negeseuon ynglŷn â gwelliannau y gellid eu cyflwyno.

Canolbwyntiodd yr adolygiad cyflym ar waith ymchwil a gynhaliwyd yn DU ac yn rhyngwladol yn ystod y pum mlynedd diwethaf – sef ymchwil a oedd yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol ac a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

1. Archwilio safbwyntiau a phrofiadau plant a oedd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol neu blant yr oedd cam-drin plant yn rhywiol wedi effeithio arnynt, yn cynnwys camfanteisio rhywiol ac ymddygiadau rhywiol niweidiol.
2. Nodi enghreifftiau o arferion da a bennwyd gan blant a phobl ifanc, naill ai o ran eu hatal rhag cael eu cam-drin yn rhywiol neu o ran ymateb iddynt.
3. Pennu unrhyw fylchau yn y sylfaen wybodaeth mewn perthynas â barn plant a phobl ifanc ynglŷn â cham-drin plant yn rhywiol, ac argymell sut y gellir mynd i'r afael â'r bylchau hyn.

**Negeseuon allweddol gan blant**

Defnyddiwyd crynodeb o'r materion a nodwyd gan blant a phobl ifanc yn sgil y gwaith hwn i ddatblygu datganiadau sy'n disgrifio'r hyn y dylai arfer da ei olygu. Nodir y materion hyn yn y tabl isod, a cheir colofn ychwanegol sy'n disgrifio sut rydym yn mynd i'r afael â'r mater yn y Strategaeth a'r cynllun cyflawni a sut y bydd hawliau plant yn cael eu cynnal.

| **Materion y soniwyd amdanynt** | **Yr hyn mae 'da' yn ei olygu...** | **Y modd y cynhwysir y mater yn y strategaeth / yr effaith ar hawliau plant** |
|---|---|---|
| Ni cheir cyrsiau 'diogelwch ar-lein' o gwbl, neu maent yn annigonol o ran amddiffyn plant a phobl ifanc rhag y bygythiadau a wynebant ar-lein. | Mae cyrsiau 'diogelwch ar-lein' ar gael ac maent yn cwmpasu materion yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol ac ymddygiadau rhywiol niweidiol. | Ychwanegwyd cam at y cynllun cyflawni yn ymwneud â chydweithredu gyda thimau polisi addysg ynglŷn â chynnwys gwersi Addysg Rhyw a Chydberthynas, a hefyd byddwn yn ystyried sut y gall y grŵp cynghori plant a phobl ifanc ategu'r datblygiadau hyn.<br><br>Mae'r dull hwn yn cynnal hawl plant i gael eu clywed, fel y nodir yn Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Trwy gynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o gydlunio'r cwricwlwm, a thrwy fynd ati i geisio'u barn trwy gyfrwng y grŵp cynghori, mae'r Strategaeth yn sicrhau bod safbwyntiau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried ac yn cael effaith wirioneddol ar y cynnwys addysg sy'n effeithio arnynt.<br><br>Trwy wella a diweddaru cynnwys gwersi Addysg Rhyw a Chydberthynas er mwyn ei wneud yn fwy |

| | | |
|---|---|---|
| | | perthnasol a defnyddiol, mae'r cam yn cynnal hawl plant i gael gafael ar wybodaeth briodol (Erthygl 17, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Mae hyn yn grymuso pobl ifanc trwy roi iddynt yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i'w hamddiffyn eu hunain rhag niwed, yn cynnwys cam-drin plant yn rhywiol ac ymddygiadau rhywiol niweidiol.<br><br>Mae'r mesurau hyn yn hyrwyddo'r hawl i gael addysg sy'n meithrin galluoedd plant i'w llawn botensial ac sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd diogel ac iach (Erthygl 29, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Trwy sicrhau bod y cwricwlwm ei hun, ynghyd â'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm, yn gynhwysol ac yn canolbwyntio ar blant, mae'r Strategaeth yn cryfhau hawliau plant i gael cyfranogi, amddiffyniad ac addysg. |
| Nid yw plant a phobl ifanc o'r farn eu bod wedi cael yr offer iawn i reoli eu diogelwch ar-lein. | Mae addysg diogelwch yn rhoi'r offer a'r wybodaeth briodol i blant ar gyfer lleihau eu risg o ddioddef cam-drin plant yn rhywiol ac ymddygiadau rhywiol niweidiol. | Byddwn yn cynnal adolygiad o'r adnoddau cyfredol ar gyfer plant a byddwn yn asesu meysydd lle gall fod angen cyflwyno gwelliannau neu ddarparu cymorth ychwanegol.<br><br>Trwy sicrhau bod yr adnoddau'n gyfredol, yn berthnasol ac yn gynhwysfawr, gellir hyrwyddo hawl plant i gael gafael ar wybodaeth briodol (Erthygl 17, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Mae hyn yn eu grymuso i'w hamddiffyn eu hunain rhag niwed a gwneud penderfyniadau cytbwys ynglŷn â'u diogelwch a'u llesiant.<br><br>Mae'r dull hwn yn arddangos ymrwymiad i sicrhau hawl plant i gael addysg sy'n meithrin eu galluoedd i'w llawn botensial (Erthygl 29, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Trwy wella adnoddau'n barhaus, mae'r Strategaeth yn sicrhau bod plant yn cael gwybodaeth gywir ac o'r radd flaenaf, sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd diogel ac iach. Hefyd, mae'n cynnal hawliau plant i gael cyfranogi ac amddiffyniad, gan fod a wnelo'r broses ag ystyried eu hanghenion a'u profiadau wrth lunio'r cymorth a'r wybodaeth a gânt. |

| | | |
|---|---|---|
| Nid yw oedolion yn deall pa mor bwysig yw'r byd ar-lein i blant a phobl ifanc, na'r risgiau a wynebant. | Mae gofalwyr neu oedolion arwyddocaol eraill yn meddu ar wybodaeth ddigonol am ddiogelwch ar-lein a risgiau ar-lein, er mwyn gallu cynorthwyo plant a phobl ifanc. | Yn ystod y flwyddyn gyntaf, bydd cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu'n cael ei lunio, bydd adnoddau presennol ar gyfer rhieni/gofalwyr yn cael eu mapio, a bydd unrhyw fylchau/anghenion mewn perthynas â gwelliannau pellach yn cael eu pennu.<br><br>Trwy roi gwybodaeth gyfredol i rieni, gellir cynorthwyo i sicrhau hawl plant i gael gafael ar adnoddau priodol (Erthygl 17, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Mae hyn yn galluogi oedolion i gynnig arweiniad cywir, mae'n helpu plant i wneud penderfyniadau cytbwys ac mae'n galluogi gofalwyr i gymryd camau amddiffynnol.<br><br>Trwy bennu bylchau mewn adnoddau presennol (a thrwy ymdrin â'r bylchau hynny), gellir sicrhau bod anghenion plant yn cael lle cwbl ganolog mewn gwelliannau parhaus. Mae'r broses adolygu barhaus hon yn arddangos ymrwymiad i ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr ac o'r radd flaenaf, sy'n ategu hawl plant i gael addysg sy'n anelu at feithrin eu galluoedd i'w llawn botensial a'u paratoi ar gyfer bywyd diogel ac iach (Erthygl 29, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn).<br><br>Trwy ddatblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu, mae'r cam hwn yn ategu hawl plant i gyfranogi (Erthygl 12, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) trwy feithrin deialog agored rhwng plant, rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Mae'r dull cynhwysol hwn yn sicrhau bod barn a phrofiadau plant yn llywio'r gwaith o ddatblygu a darparu cymorth, gan gynnal mwy fyth ar eu hawliau i gael amddiffyniad, cyfranogi ac addysg. |
| Mae addysg rhyw mewn ysgolion yn annigonol ac yn hen ffasiwn. | Caiff y cwricwlwm addysg rhyw ei gydlunio gyda phlant a phobl ifanc, gan sicrhau bod y cynnwys yn berthnasol ac yn ddefnyddiol. | Mae'r cynllun cyflawni'n cynnwys cydweithredu gyda thimau polisi addysg i lywio cynnwys gwersi Addysg Rhyw a Chydberthynas.<br><br>Mae'r dull hwn yn helpu i sicrhau bod addysg rhyw yn cael ei chydlunio gyda phlant a phobl ifanc, gan wneud y cwricwlwm yn fwy perthnasol ac yn fwy defnyddiol i'w profiadau bywyd. Mae'n cynnal hawl plant i gael gafael ar wybodaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | briodol (Erthygl 17, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn), gan eu grymuso i wneud dewisiadau cytbwys ynglŷn â'u diogelwch a'u llesiant.<br><br>Mae cynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o lunio cynnwys gwersi Addysg Rhyw a Chydberthynas yn ategu eu hawl i gyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt (Erthygl 12, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Mae'n cydnabod eu lleisiau a'u profiadau, gan sicrhau bod yr addysg a gânt yn cael ei theilwra ar sail eu hanghenion a'u pryderon. Hefyd, mae'r dull cyfranogol hwn yn cyfrannu at hawl plant i gael addysg sy'n meithrin eu galluoedd i'w llawn botensial (Erthygl 29, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn), gan fod y gwersi'n fwy diddorol, cynhwysfawr ac effeithiol o ran eu paratoi ar gyfer perthnasoedd diogel ac iach.<br><br>Yn gyffredinol, mae'r cam hwn yn arddangos ymrwymiad i greu amgylchedd dysgu lle caiff hawliau plant i amddiffyniad, addysg a chyfranogi eu hyrwyddo a'u diogelu. |
| Nid yw darparwyr platfformau ar-lein yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros ddiogelwch eu defnyddwyr. | Mae darparwyr platfformau ar-lein yn rhoi dull rhagweithiol ar waith o ran amddiffyn eu defnyddwyr, gan ganolbwyntio ar atal niwed a chan gymryd camau pan ddaw niweidiau/troseddau i'r amlwg. | Trwy gyfrwng y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, rhoddwyd rheoliadau ychwanegol ar waith ar gyfer darparwyr platfformau. Rydym wedi ymrwymo i fonitro datblygiadau a ddaw i'r amlwg yn y maes hwn, a byddwn yn cydweithredu gyda'r Tîm Gwydnwch a Diogelwch Digidol, yn ogystal ag adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru, i sicrhau ein bod yn ymgorffori unrhyw fewnwelediadau ac yn ystyried camau pellach pan fo'n briodol.<br><br>Trwy roi blaenoriaeth i ddiogelwch pobl ifanc ar-lein a thrwy roi'r mesurau hyn ar waith, bydd modd helpu i ddiogelu plant rhag niwed, gan ategu eu hawl i gael amddiffyniad fel y nodir yn Erthygl 19 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Trwy weithio ar y cyd â thimau fel y Tîm Gwydnwch a Diogelwch Digidol, gellir sicrhau bod profiadau bywyd plant a risgiau esblygol yn cael eu pennu, ac y bydd modd |

| | | |
|---|---|---|
| | | ymdrin â nhw – sef rhywbeth sy'n arddangos dull rhagweithiol o ran mynd i'r afael â diogelwch.<br><br>Trwy allu ymateb i heriau newydd a thrwy fynd ar drywydd gwelliannau'n barhaus, dangosir ymrwymiad i alluogi plant i gael mynediad at amgylcheddau digidol diogel. Mae hyn yn ategu eu hawl i gael gafael ar wybodaeth (Erthygl 17, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) mewn modd a fydd yn sicrhau na roddir eu llesiant yn y fantol. Ymhellach, trwy gynnwys timau arbenigol a thrwy fod yn agored i ddysgu, gellir annog proses gyfranogol lle gellir ystyried lleisiau ac anghenion plant wrth lunio polisïau diogelwch ar-lein, gan gyd-fynd â'u hawl i gyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt (Erthygl 12, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn).<br><br>Yn gyffredinol, mae'r camau hyn yn cryfhau hawliau plant i gael amddiffyniad, cyfranogi a mynediad at wybodaeth ddibynadwy, gan greu profiad ar-lein mwy diogel a chyfranogol. |
| Mae aelodau teuluol ac oedolion eraill (yn cynnwys ysgolion) yn teimlo'n anghyfforddus wrth siarad am gyrff a rhyw, gan beri ei bod yn anos fyth iddynt drafod camdriniaeth. | Mae gofalwyr ac oedolion perthnasol eraill yn mynd i'r afael â'r stigma trwy gynnal trafodaethau agored ynglŷn â phynciau sy'n gysylltiedig â chyrff a rhyw. | Dyma fater diwylliannol mae angen inni ei newid a dyma un rheswm pam rydym angen strategaeth ddeg mlynedd gyda chynlluniau cyflawni tair blynedd, oherwydd mae'n cymryd amser i newid diwylliant. Mae camau perthnasol yn y cynllun cyflawni'n cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r mater ymhlith rhieni/gofalwyr, gweithwyr proffesiynol a chymunedau er mwyn sicrhau y gall pobl adnabod risgiau neu achosion gwirioneddol o gam-drin plant yn rhywiol, a theimlo'n hyderus i roi gwybod am y peth.<br><br>Trwy godi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni/gofalwyr, gweithwyr proffesiynol a chymunedau, mae'r camau hyn yn helpu i sicrhau bod cam-drin plant yn rhywiol yn cael ei adnabod a'i gofnodi – sef rhywbeth sy'n ategu hawl plant i gael eu hamddiffyn rhag niwed o bob math (Erthygl 19, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Trwy rymuso oedolion i bennu risgiau ac ymateb yn hyderus, gellir creu amgylcheddau mwy diogel i blant, gan helpu i atal camdriniaeth a hwyluso ymyrraeth gynnar. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae annog deialog agored yn helpu i leihau'r stigma ynglŷn â'r corff dynol a rhyw, gan feithrin diwylliant lle mae plant yn teimlo y gallant siarad am eu profiadau. Mae'r dull cyfranogol hwn yn parchu hawl plant i gael clywed eu lleisiau mewn materion sy'n effeithio arnynt (Erthygl 12, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) ac mae'n ategu eu hawl i gael addysg sy'n hyrwyddo'u llesiant a'u potensial llawn (Erthygl 29, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Unwaith eto, trwy gynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o lunio cynnwys gwersi a pholisïau diogelu, mae'r Strategaeth yn sicrhau bod eu hanghenion a'u safbwyntiau'n cael eu hystyried, gan gryfhau mwy fyth ar eu hawl i gyfranogi a chael gafael ar wybodaeth ddibynadwy (Erthygl 17, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). |
| Mae rhwystrau diwylliannol, fel beio dioddefwyr a chywilydd neu stigma ynglŷn â chamdriniaeth, yn atal plant a phobl ifanc rhag datgelu camdriniaeth.<br><br>Ceir rhwystrau diwylliannol sy'n atal bechgyn, dynion ifanc a phobl ifanc LHDTC+ rhag datgelu, yn cynnwys peidio â'u gweld fel dioddefwyr a theimlo na fyddant yn cael eu credu. | Defnyddiwyd y dystiolaeth i wella dealltwriaeth o natur ymddygiad rhywiol plant ac ymddygiadau rhywiol niweidiol mewn plant a phobl ifanc, a'r oedolion sy'n ymateb iddynt. | Mae'r camau yn y cynllun cyflawni mewn perthynas â'r materion hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni/gofalwyr, gweithwyr proffesiynol a chymunedau er mwyn: sicrhau bod pobl yn defnyddio dulliau sy'n ystyriol o drawma; sicrhau nad ydynt yn defnyddio iaith sy'n beio'r dioddefwr; sicrhau eu bod yn deall pa mor anodd yw hi i fechgyn a dynion ifanc, pobl ifanc LHDTC+ a phobl sydd wedi newid rhywedd/sy'n paratoi i newid rhywedd, geisio help.<br><br>Mae'r camau hyn yn ategu hawliau plant i gael eu hamddiffyn rhag niwed o bob math (Erthygl 19, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) trwy sicrhau bod oedolion yn gallu adnabod ac ymateb i arwyddion o gam-drin, ni waeth be fo hunaniaeth rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol y plentyn. Trwy feithrin amgylcheddau lle caiff stigma a chywilydd eu herio, mae hi'n haws i blant ddatgelu camdriniaeth a cheisio help, gan hwyluso ymyrraeth gynnar a chan ddiogelu eu llesiant.<br><br>Trwy sicrhau bod oedolion yn sensitif i'r rhwystrau unigryw sy'n wynebu rhai grwpiau arbennig, mae'r Strategaeth yn parchu hawl plant i gyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt (Erthygl 12, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Mae defnyddio dulliau sy'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | ystyriol o drawma ac iaith gynhwysol yn helpu i greu diwylliant lle mae plant yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u cydnabod, gan eu hannog i rannu eu profiadau a'u safbwyntiau heb ofni y byddant yn cael eu beirniadu.<br><br>Hefyd, mae'r camau hyn yn cryfhau hawl plant i gael gafael ar wybodaeth a chymorth dibynadwy (Erthygl 17, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn), gan eu grymuso i ddeall eu hawliau a'r adnoddau sydd ar gael iddynt.<br><br>Trwy herio rhwystrau diwylliannol a gwella sylfaen wybodaeth y rhai sy'n cynorthwyo plant, mae'r Strategaeth yn helpu i sicrhau y gall pob plentyn gael ei amddiffyn a chael cymorth mewn modd sy'n parchu ei urddas a'i amgylchiadau unigol. |
| Mae cywilydd ac euogrwydd yn rhwystro plant a phobl ifanc rhag datgelu camdriniaeth a cheisio cymorth.<br><br>Pryder ynglŷn â llesiant y troseddwr os ydynt wedi datgelu camdriniaeth, a phryder fel ffactor sy'n atal datgelu.<br><br>Oedi cyn datgelu gan fod plant a phobl ifanc o'r farn nad oedd y gamdriniaeth yn ddifrifol ar yr adeg y digwyddodd. | Caiff plant a phobl ifanc eu haddysgu ynglŷn â cham-drin plant yn rhywiol ac ymddygiadau rhywiol niweidiol, yn cynnwys agweddau fel oedran cydsynio a diffiniadau cyfreithiol o niwed a cham-drin. | Mae'r cynllun cyflawni'n cynnwys menter i gydweithredu gyda thimau polisi yn y sector addysg i lywio cynnwys gwersi Addysg Rhyw a Chydberthynas, gan fynd ati ar yr un pryd i archwilio cyfleoedd i gydgynhyrchu gyda phlant a phobl ifanc.<br><br>Nod y Strategaeth yw creu amgylcheddau lle gall plant a phobl ifanc deimlo bod modd iddynt siarad yn agored am eu perthnasoedd a'u rhywioldeb – yn eu cartrefi a hefyd yn eu hysgolion.<br><br>Trwy gynnwys plant yn y gwaith o ddatblygu deunyddiau gwersi, mae'r Strategaeth yn cynnal Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n cadarnhau hawl plant i gyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a bod eu safbwyntiau'n cael eu mawrbrisio yn y lleoliad addysgol.<br><br>Trwy feithrin amgylcheddau lle gall plant a phobl ifanc drafod perthnasoedd a rhywioldeb yn agored (yn y cartref ac yn yr ysgol), mae'r Strategaeth yr hyrwyddo'u hawl i gael gafael ar wybodaeth ddibynadwy (Erthygl 17, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Mae hyn yn eu grymuso i wneud dewisiadau cytbwys ynglŷn â'u llesiant, eu perthnasoedd a'u diogelwch. Hefyd, mae'n ategu hawl plant i gael eu hamddiffyn rhag niwed (Erthygl 19, |

| | | |
|---|---|---|
| | | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn), oherwydd gall gwell ymwybyddiaeth a deialog agored arwain at ddatgelu camdriniaeth yn gynharach, ynghyd ag arwain at ymatebion diogelu mwy effeithiol. |
| Ofni stigma wrth gael gafael ar gymorth seicolegol ac emosiynol. | Mae cymdeithas yn cydnabod y fantais sy'n perthyn i gymorth seicolegol, a chaiff hyn ei atgyfnerthu gyda phlant a phobl ifanc gan y rhai sydd o'u cwmpas. | Trwy gynnal ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a thrwy ymwreiddio fframwaith hyfforddi ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol (a ategir gan ddull sy'n ystyriol o drawma), bydd modd cynyddu gwybodaeth yn ein cymdeithas ynglŷn â'r manteision seicolegol a sut y gellir cael gafael ar gymorth pan fo angen.<br><br>Trwy ategu hawl plant i gael gafael ar wybodaeth ddibynadwy (Erthygl 17, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn), gellir sicrhau bod plant – a'r oedolion sy'n eu cynorthwyo – yn hyddysg yn y manteision sy'n perthyn i gymorth seicolegol a'r llwybrau ar gyfer cael gafael ar gymorth o'r fath. Mae hyn yn golygu bod plant yn meddu ar yr wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniadau cytbwys ynglŷn â'u llesiant a'u diogelwch.<br><br>Trwy normaleiddio cymorth seicolegol a lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig â cheisio help, mae'r camau hyn yn hyrwyddo hawl plant i gael eu hamddiffyn rhag niwed (Erthygl 19, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Pan mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n hyderus ac yn ddigon grymus i geisio cymorth, heb ofni y byddant yn cael eu beirniadu, maent yn fwy tebygol o ddatgelu camdriniaeth yn gynharach, gan arwain at ymatebion diogelu mwy effeithiol.<br><br>Trwy ymrwymo i ddull sy'n ystyriol o drawma a thrwy ddarparu hyfforddiant rheolaidd, gellir sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn ymateb gyda sensitifrwydd a dealltwriaeth, gan gynnal ymhellach urddas plant a'u hamgylchiadau unigol. Mae'r dull cyfannol hwn yn cryfhau'r modd y gellir gwireddu eu hawliau, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a bod eu hanghenion yn cael blaenoriaeth mewn polisïau ac mewn ymarfer. |

| | | |
|---|---|---|
| Dim llawer o ymwybyddiaeth o lwybrau a mecanweithiau datgelu.<br><br>Dim llawer o ymwybyddiaeth o opsiynau cymorth na'r hyn a fydd yn digwydd ar ôl datgelu. | Mae addysg rhyw mewn ysgolion yn cynnwys manylion ynglŷn â ble y gellir datgelu camdriniaeth a'r hyn a fydd yn digwydd wedyn, yn cynnwys gwasanaethau cymorth, cyfiawnder troseddol a phrosesau perthnasol eraill (e.e. meddygol). | Ceir cam yn y cynllun cyflawni sy'n ymwneud â gweithio gyda thimau polisi mewn addysg i lunio cynnwys gwersi Addysg Rhyw a Chydberthynas ac ystyried sut y gellid cydgynhyrchu hyn gyda phlant a phobl ifanc. Dylai'r gwersi hyn gynnwys y modd y gall plant a phobl ifanc gael gafael ar gymorth a'r hyn a fydd yn digwydd ar ôl iddynt ddatgelu camdriniaeth neu ar ôl i rywun godi pryder yn eu cylch.<br><br>Bob blwyddyn, bydd ymgyrch genedlaethol yn cael ei chynnal i godi ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol ac i annog plant a phobl ifanc i roi gwybod am gamdriniaeth a cheisio cymorth.<br><br>Trwy gynnwys plant yn y gwaith o lunio cynnwys gwersi, caiff eu hawl i gael eu clywed ac i gyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau (Erthygl 12, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) ei pharchu a'i hyrwyddo. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn berthnasol, yn hygyrch ac yn ystyrlon i blant, gan eu grymuso i wneud penderfyniadau cytbwys ynglŷn â'u llesiant a'u diogelwch.<br><br>Mae darparu canllawiau tryloyw ynglŷn â chael gafael ar wasanaethau cymorth a'r gweithdrefnau a roddir ar waith ar ôl datgelu camdriniaeth yn cyd-fynd â hawliau plant i gael gafael ar wybodaeth gywir (Erthygl 17, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Trwy sicrhau bod plant yn gwybod sut y gallant gael gafael ar gymorth a beth fydd y camau dilynol, gellir eu galluogi i geisio help yn hyderus, heb deimlo ofn, gan wella'r modd y cânt eu hamddiffyn rhag niwed (Erthygl 19, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn).<br><br>Mae'r ymrwymiad i gynnal ymgyrch 'codi ymwybyddiaeth' genedlaethol bob blwyddyn yn ategu hawliau plant trwy normaleiddio sgyrsiau ynglŷn â cham-drin plant yn rhywiol, gan leihau'r stigma a chan annog plant ac oedolion i geisio help pan fo angen. Yn ogystal â hyrwyddo diwylliant agored a chefnogol, mae hyn yn gwella diogelwch trwy sicrhau bod plant yn teimlo'n hyderus i godi llais a thrwy sicrhau eu bod yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | hyderus y cânt ymatebion priodol sy'n llawn dealltwriaeth.<br><br>Yn gyffredinol, mae'r mesurau hyn ar y cyd yn cryfhau'r modd y gellir gwireddu hawliau plant trwy: sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu mawrbrisio; sicrhau bod eu mynediad at wybodaeth yn cael blaenoriaeth; a sicrhau yr eir i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal cymorth, mewn lleoliadau addysgol a hefyd yn y gymuned ehangach. |
| Pan ddatgelir achosion o gam-drin plant yn rhywiol ar-lein i weithwyr proffesiynol, nid yw'r gweithwyr hynny'n deall natur y drosedd/niwed na sut i ymateb. | Mae gweithwyr proffesiynol yn gwybod y diweddaraf am wahanol fathau o niwed a cham-drin ar-lein, fel y gallant ymateb yn effeithiol i ddatgeliadau. | Mae achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol gyda chymorth technoleg yn ehangu ac yn newid yn gyflym. Rhaid i'r rhai sy'n gweithredu'r Strategaeth hon fod yn hollol ymwybodol o risgiau a bygythiadau a ddaw i'r amlwg. Golyga hyn fod angen adolygu a diwygio'r Strategaeth yn rheolaidd, yn ogystal ag ail-lunio ac ychwanegu/diwygio camau yn ein cynlluniau cyflawni.<br><br>Bydd camfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol gyda chymorth technoleg yn cael ei gynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r fframwaith hyfforddi rydym wedi ymrwymo i'w ddatblygu. Bydd angen sefydlu mecanweithiau er mwyn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn gwybod y diweddaraf am newidiadau a bydd angen cynorthwyo asiantaethau i addasu eu hymatebion – er enghraifft, trwy gyfrwng fforymau / rhwydweithiau sydd wedi ennill eu plwyf, gan ddefnyddio Gweithdrefnau Diogelu Cymru fel hwb canolog ar gyfer adnoddau.<br><br>Gan fod y Strategaeth yn cydnabod bod y maes hwn yn esblygu, mae modd cael effaith gadarnhaol ar hawliau plant. Trwy adolygu a diweddaru'r Strategaeth yn rheolaidd, ochr yn ochr ag addasu cynlluniau cyflawni, dangosir ymrwymiad gweithredol i gynnal hawl plant i gael eu hamddiffyn rhag niwed o bob math, fel y nodir yn Erthygl 19 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.<br><br>Trwy sicrhau bod yr ymatebion yn adlewyrchu'r ffurfiau diweddaraf ar gam-drin a chamfanteisio, gellir diogelu plant yn well rhag risgiau a ddaw i'r amlwg mewn amgylcheddau digidol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Hefyd, trwy gynnwys cam-drin a gynorthwyir gan dechnoleg yn y gwaith o ddatblygu'r fframwaith hyfforddi, rydym yn ategu'n uniongyrchol hawl plant i gael gafael ar wybodaeth (Erthygl 17, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) a'u hawl i gael eu hamddiffyn rhag cam-drin a chamfanteisio rhywiol (Erthygl 34, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Trwy wneud yn siŵr bod gweithwyr proffesiynol yn gwybod y diweddaraf, gellir sicrhau eu bod yn gymwys i adnabod ac ymateb yn briodol i ddatgeliadau/pennu risgiau'n gynharach. Yn ei dro, mae hyn yn meithrin amgylchedd lle mae plant yn teimlo'n ddiogel i godi llais ac amgylchedd lle maent yn fwy tebygol o gael eu credu. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd ag arferion sy'n ystyriol o drawma ac arferion sy'n canolbwyntio ar blant, a ddisgrifir yn y cyd-destun amgylchynol, gan sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn meddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau i gynorthwyo plant yn effeithiol.<br><br>Trwy fynd ati i sefydlu mecanweithiau fel fforymau, rhwydweithiau a hybiau adnoddau canolog, fel Gweithdrefnau Diogelu Cymru, gellir sicrhau hyblygrwydd a datblygiad proffesiynol parhaus. Mae hyn yn ategu hawliau plant i gael gafael ar atebion a gwasanaethau cymorth, gan gryfhau'r nod cyffredinol – sef lleihau rhwystrau sy'n atal datgelu, sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed, a gweithredu ar sail yr hyn a ddywedant.<br><br>Yn y pen draw, mae'r mesurau hyn yn cyfrannu at amgylchedd digidol mwy diogel, maent yn gwella hyder plant i geisio help, ac maent yn cynnig ffordd gadarnach o wireddu hawliau plant yn wyneb bygythiadau ar-lein sy'n esblygu. |
| Mae plant a phobl ifanc yn datgelu camdriniaeth, ond ni chânt eu credu.<br><br>Nid yw gweithwyr proffesiynol yn gwybod sut i uniaethu â phlant a phobl ifanc sy'n datgelu achosion o gam-drin | Caiff plant a phobl ifanc eu credu gan y bobl sy'n gwrando ar eu datgeliadau, oherwydd mae'r bobl hynny'n meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i dderbyn | Trwy ymwreiddio'r fframwaith hyfforddi ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol (a ategir gan ddull sy'n ystyriol o drawma), law yn llaw â chanoli adnoddau ar gyfer gweithwyr proffesiynol, bydd modd gwella gwybodaeth ynglŷn â sut i gyfathrebu gyda phlant a phobl ifanc ynghylch cam-drin rhywiol ac ymddygiadau rhywiol niweidiol. |

| | | |
|---|---|---|
| plant yn rhywiol ac ymddygiadau rhywiol niweidiol. | datgeliadau gan bobl ifanc. | Mae hyn yn grymuso plant trwy gynyddu'r tebygolrwydd y bydd eu datgeliadau'n cael eu deall a'u credu ac y bydd camau priodol yn cael eu cymryd; a thrwy hynny, bydd modd cynnal eu hawl i gael eu hamddiffyn rhag niwed o bob math (Erthygl 19, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn).<br><br>Trwy ganoli adnoddau a thrwy ddarparu hyfforddiant parhaus, mae gweithwyr proffesiynol mewn gwell sefyllfa i hysbysu plant ynglŷn â'u hawliau ac ynglŷn â'r prosesau sy'n gysylltiedig â gwneud datgeliad. Mae hyn yn mynd i'r afael â hawl plant i gael gafael ar wybodaeth (Erthygl 17, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) a'u hawl i gael eu hamddiffyn rhag camfanteisio a cham-drin rhywiol (Erthygl 14, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Pan fydd plant yn deall beth fydd yn digwydd ar ôl iddynt ddatgelu camdriniaeth, a phan fyddant yn gwybod bod gweithwyr proffesiynol wedi cael eu hyfforddi i ymateb yn sensitif, byddant yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel ac yn hyderus i geisio help.<br><br>Hefyd, mae'r dull hwn yn ategu hawliau plant i gael gafael ar atebion a gwasanaethau cymorth effeithiol, oherwydd mae gweithwyr proffesiynol mewn gwell sefyllfa i dywys pobl ifanc trwy'r camau angenrheidiol a sicrhau y cânt gymorth priodol. Trwy feithrin diwylliant lle caiff plant eu credu a'u cynorthwyo, gellir lleihau rhwystrau o ran datgelu, gellir sicrhau bod lleisiau plant yn fwy tebygol o gael eu clywed, a gellir sicrhau bod camau'n fwy tebygol o gael eu cymryd ar sail yr hyn a ddywedant, gan gyfrannu at amgylchedd mwy diogel sy'n parchu hawliau. |
| Mae pryderon ynglŷn â chyfrinachedd ac anonymedd ar ôl datgelu yn atal plant a phobl ifanc rhag rhoi gwybod am gamdriniaeth.<br><br>Mae profiadau negyddol mewn perthynas â'r modd mae | Mae plant a phobl ifanc yn gwybod beth yw eu hawliau ac maent yn hyderus bod mesurau ar waith i sicrhau'r hawliau hynny.<br><br>Eir ati'n eang i hysbysebu gweithgareddau mewn | Trwy ymwreiddio'r fframwaith hyfforddi ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol (a ategir gan ddull sy'n ystyriol o drawma), law yn llaw â chanoli adnoddau ar gyfer gweithwyr proffesiynol, bydd modd gwella gwybodaeth ynglŷn â sut i gyfathrebu gyda phlant a phobl ifanc ynghylch prosesau, a'u hawliau mewn perthynas â'r prosesau hynny. |

| | | |
|---|---|---|
| gwasanaethau statudol yn ymateb i ddatgeliadau yn datgymell plant a phobl ifanc rhag datgelu yn y dyfodol. | perthynas â gwella'r modd yr ymatebir i gam-drin plant yn rhywiol ac ymddygiad rhywiol niweidiol, yn cynnwys ymhlith ysgolion ac ymarferwyr yn benodol. | Trwy sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth briodol ar gyfer cyfathrebu'n effeithiol gyda phlant a phobl ifanc ynglŷn â'r prosesau o dan sylw, ynghyd â hawliau plant a phobl ifanc o fewn y prosesau hynny, gellir cynnal nifer o hawliau allweddol o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.<br><br>Mae'r dull hwn yn ategu'n uniongyrchol hawliau plant i gael eu hamddiffyn rhag niwed o bob math (Erthygl 19, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) trwy sicrhau bod datgeliadau'n cael eu deall a bod camau priodol yn cael eu cymryd. Pan fo gweithwyr proffesiynol wedi cael eu hyfforddi'n dda, mae plant yn fwy tebygol o gael eu credu a'u cynorthwyo, gan beri iddynt deimlo'n fwy diogel ac yn fwy hyderus i geisio help.<br><br>Trwy roi gwybod i blant beth fydd yn digwydd ar ôl iddynt ddatgelu camdriniaeth a beth yw eu hawliau o fewn y prosesau hynny, mae'r fframwaith yn cynnal eu hawl i gael gafael ar wybodaeth (Erthygl 17, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) a'u hawl i gael eu hamddiffyn rhag cam-drin a chamfanteisio rhywiol (Erthygl 34, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Caiff plant sy'n deall y system eu grymuso i wneud dewisiadau cytbwys, ac maent yn llai tebygol o gael eu datgymell gan ansicrwydd neu oherwydd eu bod ofn cael ymateb negyddol.<br><br>Mae'r dull hwn yn sicrhau bod plant yn gallu cael mynediad at atebion a gwasanaethau cymorth effeithiol, gan gryfhau eu hawl i gael eu clywed a chyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt (Erthygl 12, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Pan gaiff gweithwyr proffesiynol eu hyfforddi'n briodol, gallant dywys plant trwy'r camau angenrheidiol a gallant sicrhau bod y cymorth yn hygyrch ac yn ymatebol i anghenion unigol; trwy hynny, gellir meithrin amgylchedd sy'n canolbwyntio mwy ar blant ac sy'n parchu hawliau i raddau mwy. |

| | | |
|---|---|---|
| Oherwydd amseroedd aros maith cyn cael cymorth, mae plant a phobl ifanc yn teimlo nad ydynt yn bwysig, gan gynyddu eu pryder na fyddant yn cael eu credu.<br><br>Oherwydd nifer cyfyngedig y sesiynau, nid oes modd esgor ar ymyriad therapiwtig ystyrlon; yn aml, yr unig beth a wneir yw aildrawmateiddio'r person ifanc.<br><br>Darperir cymorth mewn modd anghyson e.e. daw'r cymorth i ben yn ddirybudd neu caiff yr ymarferydd ei newid heb ymgynghori â'r plentyn.<br><br>Anhawster o ran cael gafael ar wasanaethau cymorth oherwydd natur wledig y lleoliad a'r angen i deithio ymhell.<br><br>Diffyg dewis o ran y math o gymorth a ddarperir.<br><br>Diffyg dewis o ran yr ymarferydd sy'n darparu'r cymorth. | Darperir cymorth yn syth; neu pan geir rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau, caiff y plentyn ei hysbysu a'i ddiweddaru ynglŷn â'r sefyllfa. Awgrymir opsiynau cymorth eraill yn y cyfamser.<br><br>Caiff y cymorth ei deilwra ar sail anghenion yr unigolyn. Ceir ymdeimlad clir o amcanion a chanlyniadau'r ymyriad therapiwtig, a chaiff y plentyn ei gynorthwyo i bennu'r amcanion a'r canlyniadau hynny.<br><br>Caiff newidiadau eu cyfathrebu'n glir ac mewn da bryd.<br><br>Mae plant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell yn cael mynediad cyfartal at wasanaethau, yn yr un modd â phlant sy'n byw mewn ardaloedd trefol a maestrefol.<br><br>Caiff y math o gymorth a ddarperir ei bennu gan yr unigolyn ac ar sail yr anghenion y cynorthwywyd yr unigolyn i'w pennu.<br><br>Gall gwasanaethau gymryd amser i baru ymarferwyr a defnyddwyr. Os na fydd cydberthnasau therapiwtig effeithiol yn datblygu, ni fydd y | Mae'r nodau sydd ynghlwm wrth amcanion strategol 3 a 4 – sef cefnogi plant, rhieni/gofalwyr/brodyr a chwiorydd ac aelodau eraill o'r teulu a chefnogi oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr – yn anelu at wella mynediad at wasanaethau, lleihau oedi a sicrhau bod pawb yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn, mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion.<br><br>Trwy roi blaenoriaeth i hygyrchedd ac ymatebolrwydd, mae'r amcanion hyn yn cynnal hawl plant i gael help angenrheidiol pan fo angen, fel y nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn enwedig Erthyglau 19 (yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag trais o bob math), 24 (yr hawl i gael gwasanaethau iechyd a gofal iechyd) a 39 (yr hawl i adfer ac ailintegreiddio).<br><br>Trwy sicrhau bod cymorth ar gael heb oedi gormodol a thrwy sicrhau bod y cymorth yn cael ei deilwra ar sail anghenion unigol y plentyn, gellir ategu'r egwyddor sy'n ymwneud â lles pennaf y plentyn (Erthygl 3); a thrwy gynnwys teuluoedd a gofalwyr, cydnabyddir pa mor bwysig yw amgylchedd ehangach y plentyn o ran ei adferiad a'i lesiant. Ymhellach, trwy anelu at ddarparu'r cymorth iawn ar yr adeg iawn, mae'r amcanion hyn yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac anwahaniaethu, gan sicrhau y gall pob plentyn – yn cynnwys plant mewn ardaloedd gwledig neu anghysbell, neu blant o gefndiroedd amrywiol – fwynhau mynediad cyfartal at wasanaethau cymorth. Yn ogystal â hyrwyddo adferiad plant a hyrwyddo'r arfer o'u hamddiffyn, mae'r cydweddiad hwn â fframweithiau hawliau plant yn cryfhau eu hawl i gyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. |

| | | |
|---|---|---|
| | broses 'ailneilltuo' yn esgor ar anfantais i'r defnyddiwr. | |

**Negeseuon allweddol ehangach sy'n deillio o'r adolygiad**

- Yr angen i fynd i'r afael â rhagor o waith ymchwil yn ymwneud â phrofiadau plant a phobl ifanc mewn perthynas â rhaglenni diogelwch ar-lein ac effeithiolrwydd y rhaglenni hynny o ran atal ac ymateb i drais a chamdriniaeth.
- Dylid mynd ati'n ddi-oed i bennu ffactorau diwylliannol a thueddiadau cymdeithasol a ddaw i'r amlwg (sef ffactorau a thueddiadau sy'n dylanwadu ar blant a phobl ifanc), gan eu hymgorffori yn y sylfaen dystiolaeth. Er enghraifft, mae'r cynnydd yn nifer y dylanwadwyr misogynistaidd, fel y nodir yn adroddiad diweddar Hand (2025) ynglŷn â cham-drin plant yn rhywiol yng Ngweriniaeth Iwerddon, yn dangos pa mor bwysig yw monitro datblygiadau o'r fath.
- Ceir bwlch sylweddol mewn ymchwil empirig o ran absenoldeb safbwyntiau plant a phobl ifanc ynglŷn â chamfanteisio rhywiol ar sail grŵp. Efallai fod dioddefwyr y mathau hyn o gamdriniaeth wedi'u cynnwys mewn astudiaethau presennol, ond yn aml caiff eu profiadau eu cuddio gan fanylion annigonol ynghylch nodweddion y cyfranogwyr neu'r defnydd a wneir o dermau annelwig, fel "cafodd ei gam-drin gan nifer o ddynion". Mae angen bod yn fwy penodol mewn gwaith ymchwil fel y gellir pennu'r bylchau hyn mewn gwybodaeth a mynd i'r afael â nhw.
- Dylid defnyddio strategaethau recriwtio penodol er mwyn sicrhau y cynhwysir lleisiau grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol, megis plant anabl, plant â phrofiad o fod mewn gofal, plant niwrowahanol, a phlant a chanddynt brofiadau sy'n wahanol i normau cenedlaethol – er enghraifft, plant â chyfrifoldebau gofalu neu blant sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.
- Diffyg ymchwil ynglŷn â mesurau ataliol a ffactorau amddiffynnol sy'n lleihau'r risgiau sydd ynghlwm wrth ymddygiadau rhywiol niweidiol a cham-drin plant yn rhywiol ar-lein. Efallai y caiff y bwlch hwn ei waethygu gan arferion recriwtio sy'n canolbwyntio'n benodol ar unigolion sydd wedi cael eu cam-drin, yn ogystal â'r anhawster cynhenid o ran dangos tystiolaeth o absenoldeb niwed a phennu cysylltiadau achosol. Er bod cam-drin cyswllt yn cyflwyno dynameg wahanol, mae'r mater hwn yn arbennig o berthnasol i gam-drin ar-lein, lle gall plant feddu ar fwy o allu i'w pellhau eu hunain oddi wrth gyflawnwyr, fel y nodir gan rai pobl ifanc yn yr adolygiad cyflym.
- Byddai gwaith ymchwil sy'n archwilio ymddygiadau amddiffynnol – megis enghreifftiau lle llwyddodd plant i osgoi ymgysylltu â chamdriniwr – yn cynnig

mewnwelediadau gwerthfawr gogyfer strategaethau ar gyfer aros yn ddiogel ar-lein.

- Dengys tystiolaeth fod plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o ddatgelu camdriniaeth i'w cyfoedion yn y lle cyntaf, a'u bod yn fwy tebygol o geisio cymorth ganddynt hwy (Warrington et al., 2022). Mae'r canfyddiad hwn yn tanlinellu'r angen i ymgysylltu'n ehangach gyda'r rhai nad ydynt wedi defnyddio gwasanaethau ffurfiol, ac mae'n crybwyll ystyriaethau pwysig o ran cyfoedion yn gweithredu fel 'storfa' ar gyfer troseddau difrifol nas cofnodwyd, a'r effaith emosiynol a gaiff hynny arnynt hwy. Gan fod cyfoedion eisoes yn cyflawni'r rôl hon, mae'n hanfodol ymchwilio ymhellach i'r arfer o ddatgelu camdriniaeth i gyfoedion.
- Yn ystod yr adolygiad, casglwyd manylion am ddulliau cyfranogi fel rhan o'r dadansoddiad methodolegol. Mae angen gwneud rhagor o waith i fapio tirlun y ddarpariaeth. Eisoes, mae darparwyr gwasanaethau arbenigol yng Nghymru yn defnyddio dulliau arloesol lle rhoddir blaenoriaeth i ymgysylltu ystyrlon sy'n seiliedig ar ddwyochredd, gan alluogi plant a phobl ifanc i gaffael sgiliau newydd trwy gyfranogi. Nodweddir y dulliau hyn gan eu cynllun dwy ffordd, gan alluogi plant a phobl ifanc i ddylanwadu ar agendâu y tu hwnt i faterion a bennir eisoes gan wasanaethau a chyrff gorfodi'r gyfraith.

Ochr yn ochr â'r strategaeth ddrafft deg mlynedd ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol, cyhoeddwyd y Strategaeth a'r cwestiynau ymgynghori ar ffurf a oedd yn addas i blant. Anogwyd gwasanaethau i godi ymwybyddiaeth o'r deunyddiau hyn – oddi mewn i'w sefydliadau ac yn ehangach.

Cyflwynwyd cynrychiolaeth o safbwyntiau plant yn yr ymatebion a gafwyd gan sefydliadau allweddol yn y sector (e.e. Barnardo's Cymru), gan ddiogelu hawliau plant o ran sicrhau cyfrinachedd a chydymffurfio â rheolau diogelu data. Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad, a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2025, yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion. Gellir dod o hyd i'r ddogfen yma: [Strategaeth genedlaethol ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol | LLYW.CYMRU]

Mae'r materion allweddol a grybwyllir gan y plant a'r bobl ifanc a ymatebodd yn adleisio nifer o faterion tebyg a gyflwynwyd yn yr adolygiad cyflym.

Yn ôl un person ifanc a ymatebodd i'r ymgynghoriad: *"Dyw gofalwyr ddim wastad yn deall sut i ofalu am blant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol. Dyw plant ddim yn gwybod beth i'w ddweud, sut i siarad gyda phobl. Maen nhw'n eich tynnu o'r sefyllfa anniogel, ond yna dydyn nhw ddim wastad yn deall sut mae'r sefyllfa wedi effeithio arnoch na sut mae'n effeithio ar bob rhan o'ch bywyd".*

Dywedodd person ifanc arall a ymatebodd i'r ymgynghoriad pa mor bwysig yw hyfforddi gweithwyr proffesiynol a gofalwyr. *"Dylai gweithwyr proffesiynol, yn cynnwys gofalwyr, gael hyfforddiant yn ymwneud â cham-drin rhywiol. Maen nhw*

*angen deall yn well beth yw cam-drin rhywiol ac maen nhw angen deall yr ymddygiad a'r rhesymau sydd wrth ei wraidd. Nid am ein bod eisiau sylw, ond am nifer o resymau".*

O ran agweddau diwylliannol, dyma a ddywedodd un person ifanc a ymatebodd i'r ymgynghoriad, *"Mae'r wasg yn llawn enghreifftiau o feio'r dioddefwr. Mae'n bwysig inni ddysgu rhywbeth er mwyn gallu gwrthsefyll yr agweddau hyn".*

**Sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant**

Mae'r adolygiad cyflym o'r dystiolaeth yn cynnig darlun clir o safbwyntiau plant a phobl ifanc ynglŷn â'r hyn sy'n bwysig, yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd angen ei wella. Ymgorfforwyd y safbwyntiau hyn yn fersiwn derfynol y Strategaeth ac fe'u defnyddiwyd i lunio camau yn y cynllun cyflawni tair blynedd cyntaf ochr yn ochr â nodi sut mae'r Strategaeth yn cynnal hawliau plant.

Bydd grŵp cynghori plant a phobl ifanc yn cael ei sefydlu. Ni fydd aelodau'r grŵp hwn yn derbyn syniadau proffesiynol yn oddefol; yn hytrach, byddant yn ysgogi eu syniadau eu hunain ac yn dwyn sefydliadau i gyfrif am y cynnydd a wneir.

Wrth fynd ati i ddatblygu a chyflawni polisïau, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymgorffori ei hymateb i argymhellion Arsylwadau Terfynol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mewn perthynas â'r maes polisi hwn:

Mae Arsylwadau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi bod Adroddiadau ar Gam-drin Plant yn Rhywiol yn tynnu sylw at y gostyngiad brawychus yn nifer y cynlluniau amddiffyn plant sydd i'w cael mewn perthynas â Cham-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru, a nodir bod nifer y plant a roddir ar y gofrestr oherwydd Cam-drin Plant yn Rhywiol wedi gostwng 28% dros 10 mlynedd er gwaethaf y llu o alwadau a dderbynnir gan linellau cymorth cenedlaethol mewn perthynas â cham-drin ac esgeulustod. Yn ystod y cyfnod clo, dywedodd gwasanaethau a oedd yn gweithio gyda phlant a oedd wedi goroesi camdriniaeth eu bod yn pryderu na ellid rhoi cymorth i'r plant ifanc hynny na allent gyrchu cymorth rhithwir yn annibynnol, yn cynnwys therapi chwarae. Bydd hyn wedi esgor ar ganlyniadau parhaus o ran adferiad plant a hefyd o ran gallu gwasanaethau cymorth arbenigol i ddiwallu galw cynyddol.

Roeddynt yn bryderus ynghylch argaeledd gwasanaethau cymorth arbenigol; amseroedd aros ar gyfer Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol; y cymorth anghyson a ddarperir ledled Cymru; a'r ansicrwydd ynglŷn â lefelau cyllido yn y dyfodol. Argymhellwyd y dylid gwneud y canlynol:

- Mabwysiadu ymateb hirdymor a chynaliadwy sy'n ystyriol o drawma fel y gellir diogelu plant rhag trais ac esgeulustod

- Pan fo angen, sicrhau bod plant sydd wedi cael eu cam-drin yn gallu cael gafael ar wasanaethau therapiwtig priodol sy'n canolbwyntio ar blant
- Rhoi 'dull iechyd y cyhoedd' ar waith ar gyfer ymdrin â cham-drin plant yn rhywiol
- Ymrwymo i gyhoeddi fersiwn ddiweddarach o'r strategaeth, ochr yn ochr ag asesiad effaith.

Mae'r Strategaeth yn cynrychioli gweledigaeth 10 mlynedd sy'n rhoi 'dull iechyd y cyhoedd' ar waith ar gyfer ymdrin â cham-drin rhywiol, ac mae'n canolbwyntio ar atal, y gallu i ymateb, lleihau rhwystrau a gwella mynediad at gymorth ar gyfer pawb yng Nghymru y mae cam-drin plant yn rhywiol wedi effeithio arnynt.

Bydd Cynlluniau Cyflawni tair blynedd yn ategu'r Strategaeth. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n flynyddol mewn crynodeb o'r cynnydd a bydd modd eu diwygio/ychwanegu atynt, gan sicrhau y bydd y pethau a ddysgir yn cyfrannu'n uniongyrchol at weithredu.

**Tabl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** – mae'r tabl isod yn esbonio'r modd mae'r Strategaeth yn cyfrannu at erthyglau penodol yn y Confensiwn.

| • **Erthyglau'r Confensiwn neu Brotocol Opsiynol** | **Gwella (X)** | **Herio (X)** | **Esboniad** |
|---|---|---|---|
| *Erthygl 2: Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bawb, ni waeth be fo'u hil, eu crefydd, eu galluoedd, ni waeth be fônt yn ei feddwl neu'n ei ddweud ac ni waeth sut fath o deulu maent yn perthyn iddo.* | X | | Bydd nodweddion gwarchodedig e.e. oedran ac unrhyw ffactorau croestoriadol, yn cael eu hystyried wrth lunio camau, a byddant yn cael eu hymgorffori yn y strwythur a ddatblygir i gyflawni'r Strategaeth. Yn yr un modd, wrth ddatblygu'r Strategaeth a'r cynllun cyflawni aethpwyd ati i ystyried yr angen am gamau penodol ar gyfer diwallu anghenion amrywiol, a bydd gwaith ymgysylltu parhaus gydag amrywiaeth o randdeiliaid yn sicrhau y bydd hyn yn parhau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Erthygl 3: Rhaid i bob penderfyniad a cham gweithredu mewn perthynas â phlant roi blaenoriaeth i les pennaf plant, gan sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn a'u bod yn cael gofal, a chan warantu bod y sefydliadau sy'n gyfrifol am eu lles yn bodloni safonau arbennig o ran diogelwch, iechyd, staffio a goruchwylio.* | X | | Mae'r Strategaeth yn rhoi blaenoriaeth i les, diogelwch ac urddas plant a phobl ifanc trwy roi protocolau cyfrinachedd cadarn ar waith, gan sicrhau bod profiadau personol a rennir yn y grwpiau cynghori yn parhau i gael eu diogelu. Mae'r dull hwn yn diogelu plant rhag niwed a stigma posibl, gan feithrin amgylchedd lle gellir clywed eu lleisiau heb iddynt ofni unrhyw ddialedd.<br><br>Trwy agor aelodaeth y grŵp i blant a phobl ifanc â diddordeb, a thrwy ailfframio'r grŵp fel grŵp ar gyfer 'atal ac ymateb' yn hytrach na grŵp ar gyfer 'dioddefwyr-oroeswyr', mae'r Strategaeth yn osgoi stigmateiddio ac yn hyrwyddo cynhwysiant. Trwy ddefnyddio arbenigwyr hyfforddedig i hwyluso unrhyw ryngweithio, gellir sicrhau yr ymdrinnir ag anghenion y plant mewn modd sensitif a phroffesiynol, gan ategu mwy fyth ar eu lles pennaf. Mae gweithdrefnau 'cydsyniad ar sail gwybodaeth' ac arferion diogel mewn perthynas â diogelu data, yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, yn gwarantu y bydd hawliau plant i breifatrwydd ac ymreolaeth yn cael eu parchu.<br><br>Mae ymrwymiad y Strategaeth i greu mannau diogel ar gyfer cynnal deialog, yn cynnwys sesiynau preifat a mecanweithiau adborth, yn grymuso plant i gyfranogi yn y gwaith o lunio ymatebion i gam-drin ac yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cryfhau eu hymdeimlad o alluogedd. Trwy adolygu arferion ymgysylltu'n rheolaidd, dangosir dull rhagweithiol o gynnal ymddiriedaeth ac ymdrin â phryderon a ddaw i'r amlwg. |
| *Erthygl 6: Mae gan bob plentyn hawl i fywyd. Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.* | X | | Mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio'n negyddol ar iechyd a llesiant plant. Efallai y bydd plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn hunan-niweidio, yn ceisio cyflawni hunanladdiad, yn coleddu syniadau hunanladdol, yn cael problemau iechyd corfforol o ganlyniad i'r gamdriniaeth neu gyflyrau poen cronig, cyflyrau gastroberfeddol a mwy, ac yn cael problemau iechyd meddwl drwy gydol eu hoes.<br><br>Bydd y Strategaeth yn gwella hawliau plant o dan Erthygl 6: yn gyntaf, trwy leihau'r risg y byddant yn dioddef niwed rhywiol; ac yn ail, trwy sicrhau bod ganddynt fynediad at y cymorth iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol angenrheidiol, a thrwy sicrhau yr ymatebir yn ddi-oed ac yn effeithiol i'w hanghenion.<br><br>Hefyd, mae'r Strategaeth yn anelu at gynorthwyo'r oedolion sydd o'u cwmpas e.e. rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, er mwyn iddynt allu deall beth yw cam-drin rhywiol ac er mwyn eu grymuso i greu amgylcheddau mwy diogel ar gyfer y plant a'r bobl ifanc y gofalant amdanynt/y rhoddant gymorth iddynt. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Nod y Strategaeth yw grymuso plant a phobl ifanc trwy roi gwybod iddynt: sut y gallant eu cadw'u hunain, ac eraill, yn ddiogel; beth yn union yw cam-drin plant yn rhywiol; a sut i ddatgelu pryderon a chael gafael ar gymorth – heb golli golwg ar y cyfrifoldeb sydd ar ysgwyddau'r oedolion o'u cwmpas i'w cadw'n ddiogel. |
| *Erthygl 12: Pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant, mae gan blant hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd, ynghyd â hawl i fynnu y dylai eu barn gael ei hystyried.* | X | | Mae'r Strategaeth yn anelu at rymuso plant i ddweud eu dweud ynglŷn â'r gwasanaethau a gânt, er mwyn sicrhau bod yr oedolion sydd o'u cwmpas yn parchu ac yn mawrbrisio'u cyfraniad at y penderfyniadau a allai effeithio arnynt.<br><br>Bydd grŵp cynghori plant a phobl ifanc yn cael ei sefydlu er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r Strategaeth a sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed dros oes y Strategaeth.<br><br>Bydd unrhyw waith ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc yn cael ei dywys gan arbenigwyr a bydd yn cael ei gyflawni mewn modd sensitif a chefnogol.<br><br>Yn ystod y flwyddyn gyntaf, bydd cynllun ymgynghori ac ymgysylltu'n cael ei ddatblygu. Bydd y cynllun hwn yn pennu'n glir beth yw rôl y grŵp cynghori a sut y bydd safbwyntiau'r grŵp yn cyfrannu at ffrydiau gwaith. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Bydd gwaith ymgysylltu ac ymgynghori yn diogelu cyfrinachedd ac yn mynd i'r afael â phryderon cysylltiedig trwy gael:<br><br>• Dull hwyluso arbenigol ar gyfer sicrhau y caiff yr holl wybodaeth ei thrin yn briodol a sicrhau nad achosir unrhyw niwed pellach trwy gyfrwng y broses ymgysylltu.<br>• Protocolau cyfrinachedd clir sy'n nodi sut y bydd modd diogelu gwybodaeth bersonol ac ym mha amgylchiadau y gellir datgelu gwybodaeth bersonol. Bydd y protocolau ar gael i'r plant ac i'w gwarchiedwaid.<br>• Cydsyniad ar sail gwybodaeth – gan sicrhau disgwyliadau clir ynglŷn â diben yr ymgysylltu, y modd y defnyddir yr wybodaeth a chyfyngiadau'r cyfrinachedd (megis rhwymedigaethau diogelu).<br>• Mannau diogel ar gyfer cynnal deialog, lle mae plant yn teimlo'n gyfforddus i rannu eu safbwyntiau heb ofni 'datgelu heb fod eisiau' neu ofni y byddant yn cael eu beirniadu e.e. mecanweithiau adborth dienw neu sesiynau 'un i un' gydag oedolion dibynadwy.<br>• Cydymffurfedd â rheolau diogelu data, gan sicrhau bod yr holl ddata a'r holl arferion storio data'n cydymffurfio â rheoliadau a chyfreithiau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | diogelu data perthnasol (Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data).<br>• Proses adolygu barhaus – adolygu arferion ymgysylltu'n rheolaidd (a'u diweddaru, o bosibl) fel y gellir ymateb i faterion a ddaw i'r amlwg, neu adborth gan blant ac arbenigwyr.<br><br>Trwy ymwreiddio'r mesurau diogelu hyn, bydd y broses ymgysylltu'n parchu ac yn diogelu preifatrwydd y plant a'r bobl ifanc, gan sicrhau ar yr un pryd bod eu lleisiau'n cael eu clywed mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. |
| *Erthygl 13: Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth cyn belled nad yw'r wybodaeth honno'n niweidiol iddynt hwy neu i eraill.* | X | | Bydd y Strategaeth hon yn adeiladu ar adnoddau a ddatblygwyd eisoes o dan y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol gwreiddiol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol er mwyn sicrhau bod plant yn cael yr wybodaeth iawn ar yr adeg iawn, ac er mwyn sicrhau y bydd yr wybodaeth honno ar gael iddynt yn y mannau lle treuliant amser, ac mewn gwahanol fformatau. |
| *Erthygl 16: Mae gan blant hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu hamddiffyn rhag ymosodiadau yn erbyn eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi.* | X | | Mae'r Strategaeth yn anelu at atal cam-drin plant a phobl ifanc yn rhywiol.<br><br>Mae'r Strategaeth yn cynnwys camau a gymerir i atal ac ymateb i gam-drin rhywiol ar-lein a cham-drin rhywiol trwy ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Bydd y grŵp cynghori plant a phobl ifanc yn agored i blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn ogystal â phlant a phobl ifanc nad ydynt wedi cael eu cam-drin yn rhywiol. Bydd y grŵp yn cael ei ddisgrifio fel 'fforwm ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â diddordeb yn y modd rydym yn atal ac yn ymateb i gam-drin plant yn rhywiol', felly ni fydd yr aelodau'n cael eu galw'n 'ddioddefwyr-oroeswyr'.<br><br>Bydd eu manylion cyswllt yn cael eu storio'n ddiogel, a byddwn yn rhoi gwybod iddynt beth yw eu hawliau o dan y Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.<br><br>Bydd eu hawl i breifatrwydd yn cael ei sicrhau fel a ganlyn:<br><br>• Mabwysiadu dull amlhaenog o ddiogelu preifatrwydd a chyfrinachedd, sef dull sy'n seiliedig ar arferion gorau ac sy'n cydymffurfio â'r gyfraith.<br>• Rhoi protocolau cyfrinachedd clir ar waith ar gyfer holl drafodaethau'r grŵp cynghori, gan wahardd yr arfer o ddatgelu profiadau personol y tu allan i'r grŵp.<br>• Rhoi gwybod i'r aelodau o'r cychwyn cyntaf beth yw'r protocolau cyfrinachedd, gan bwysleisio'u pwysigrwydd a'r hyn a fydd yn digwydd pe baent yn cael eu torri.<br>• Ei gwneud yn bosibl i bob plentyn a pherson ifanc sydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | â diddordeb yn y maes ymuno â'r grŵp, gan osgoi galw'r aelodau'n 'ddioddefwyr-oroeswyr' a chan fynd ati, yn hytrach, i ddisgrifio'r grŵp fel fforwm ar gyfer atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol.<br>• Defnyddio arbenigwyr hyfforddedig i hwyluso holl rhyngweithio'r grŵp, gan atgyfnerthu cyfrinachedd a chan ymyrryd fel bo'r angen.<br>• Cael cydsyniad ar sail gwybodaeth gan yr holl aelodau (a chan y rhieni/gwarcheidwaid pan fo'n briodol), gan esbonio sut y bydd yr wybodaeth yn cael ei diogelu a'i defnyddio a beth yw cyfyngiadau'r cyfrinachedd.<br>• Storio manylion cyswllt a data personol yn ddiogel, yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, a rhoi gwybod i'r aelodau beth yw eu hawliau.<br>• Creu mannau diogel ar gyfer cynnal deialog, yn cynnwys mecanweithiau adborth dienw a sesiynau preifat, er mwyn annog cyfranogi agored.<br>• Mynd ati'n rheolaidd i adolygu arferion ymgysylltu fel y gellir mynd i'r afael ag unrhyw bryderon a ddaw i'r amlwg mewn perthynas â chyfrinachedd neu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | breifatrwydd, gan gynnal diwylliant yn llawn ymddiriedaeth a pharch. |
| *Erthygl 17: Mae gan blant hawl i gael gwybodaeth ddibynadwy gan y cyfryngau torfol. Dylai'r teledu, y radio a phapurau newydd gyflwyno gwybodaeth y gall plant ei deall, ac ni ddylent hyrwyddo deunyddiau a allai niweidio plant.* | X | | Mae a wnelo rhan fawr o'r Strategaeth â chodi ymwybyddiaeth ymhlith plant, rhieni/gofalwyr, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd, fel y gellir sicrhau bod pawb yn gwybod sut i ganfod cam-drin plant yn rhywiol a sut i roi gwybod amdano.<br><br>Bydd ymgyrchoedd cenedlaethol a lleol yn cael eu cynnal yn flynyddol, gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth, chwalu camdybiaethau a darparu gwybodaeth gywir. |
| *Erthygl 19: Dylai Llywodraethau sicrhau bod plant yn cael gofal priodol, a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu bwy bynnag arall sy'n gofalu amdanynt.* | X | | Dyma erthygl allweddol sy'n sail i'r Strategaeth. Mae'n hyrwyddo'r arfer o atal niwed, amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed, a'u grymuso nhw a'r oedolion sydd o'u cwmpas i gymryd camau pan fo ganddynt bryderon.<br><br>Un o nodau allweddol y Strategaeth yw sicrhau mynediad, amddiffyniad a chanlyniadau teg i holl blant Cymru, pa un a ydynt yn byw gyda'u rhieni, yn byw gydag aelodau eraill o'r teulu, yn cael gofal, neu'n 16 ac yn 17 oed ac yn byw'n annibynnol/lled-annibynnol.<br><br>Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan yr holl wasanaethau a ddaw i gysylltiad â phlant systemau diogelu cadarn ar waith, pa un a ydynt wedi cofrestru gydag Arolygiaeth ai peidio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Dyma strategaeth drawslywodraethol a thraws-sector sy'n golygu gweithio'n agos gyda gwasanaethau statudol, gwasanaethau'r trydydd sector, byrddau diogelu rhanbarthol a'r bwrdd diogelu cenedlaethol sy'n gyfrifol am gadw plant yn ddiogel rhag niwed/cam-drin rhywiol, er mwyn cyflawni'r Strategaeth dros y degawd nesaf.<br><br>Mae ail amcan strategol y Strategaeth – sef diogelu plant ac ymateb iddynt pan geir pryderon ynglŷn â cham-drin plant yn rhywiol – yn cynnwys camau a gymerir i sicrhau y bydd yr ymateb amlasiantaethol yn digwydd yn ddi-oed ac yn effeithiol, ac y bydd yn hyrwyddo adferiad.<br><br>Bydd fframwaith hyfforddi ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol yn cael ei roi ar waith, a bydd yn sicrhau bod yr holl wirfoddolwyr a'r holl weithwyr proffesiynol yn meddu ar yr wybodaeth angenrheidiol i gadw plant yn ddiogel ac i ymateb iddynt mewn ffordd sy'n hyrwyddo'u hadferiad.<br><br>Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, bydd gwaith yn cael ei wneud i fapio'r adnoddau sydd ar gael/yr adnoddau y mae eu hangen ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc a all fod yn fwy agored i gam-drin rhywiol, a bydd unrhyw fylchau'n cael eu pennu. Mae grwpiau penodol sy'n wynebu risg uwch yn cynnwys plant â phrofiad o fod mewn gofal, plant |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | anabl, plant sy'n geiswyr lloches digwmni a phlant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal. |
| *Erthygl 23: Dylai plant a chanddynt anabledd o unrhyw fath gael gofal a chymorth arbennig er mwyn iddynt allu byw bywydau llawn ac annibynnol.* | X | | Bydd anghenion penodol plant a chanddynt anableddau'n cael eu diwallu trwy gyfrwng camau penodol. Mae plant ag anableddau'n wynebu risg uwch o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso, yn cynnwys camdriniaeth rywiol. Oherwydd effaith eu hanabledd, efallai na allant adnabod neu ddeall pan fo rhywbeth o'i le. Hefyd, efallai eu bod angen cymorth i reoli eu gofal personol, ac o'r herwydd mae yna fwy o botensial i rywun ddefnyddio'r cyfleoedd hynny i gam-drin plant yn rhywiol.<br><br>Mae'r strategaeth hon, sy'n rhoi lle blaenllaw i atal, amddiffyn a chynorthwyo, yn berthnasol i bob plentyn, ni waeth be fo'i nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, byddwn yn sicrhau bod unrhyw ddeunyddiau a gynhyrchwn ar gael mewn amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu. |
| *Erthygl 29: Dylai addysg plant feithrin eu datblygiad llwyr a'u parch dros hawliau dynol, amrywiaeth diwylliannol, a'r amgylchedd.* | X | | Mae rhoi blaenoriaeth i les, diogelwch ac urddas plant a phobl ifanc wrth galon a chraidd y Strategaeth hon. Cyflawnir hyn trwy gyfrwng protocolau cyfrinachedd cadarn sy'n sicrhau bod profiadau personol a rennir mewn grwpiau cynghori yn parhau i gael ei diogelu, gan feithrin amgylchedd lle gall plant siarad yn ddilyffethair heb ofni |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | stigma neu ddialedd. Trwy ddefnyddio arbenigwyr hyfforddedig i hwyluso rhyngweithio mewn grwpiau a thrwy gael 'cydsyniad ar sail gwybodaeth' gan yr holl gyfranogwyr, mae'r Strategaeth yn sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed mewn modd sensitif a phroffesiynol, gan ategu eu hymreolaeth a'u twf personol.<br><br>Ymhellach, mae'r Strategaeth yn hyrwyddo cynhwysiant trwy agor aelodaeth y grŵp i blant a phobl ifanc â diddordeb yn y maes, gan ailframio'r grŵp fel man ar gyfer atal ac ymateb yn hytrach na grŵp ar gyfer dioddefwyr-oroeswyr yn unig. Mae'r dull hwn yn osgoi stigmateiddio ac yn annog parch ar gyfer gwerthoedd a hunaniaeth ddiwylliannol pob plentyn, fel y nodir yn Erthygl 29.<br><br>Trwy greu mannau diogel ar gyfer cynnal deialog agored – yn cynnwys mecanweithiau adborth dienw a sesiynau preifat – gellir grymuso plant i ymgysylltu'n ystyrlon, gan feithrin eu hymdeimlad o alluogedd a chyfrifoldeb wrth lunio ymatebion i gamdriniaeth. Trwy adolygu arferion ymgysylltu'n rheolaidd, dangosir ymrwymiad i gynnal ymddiriedaeth, ymdrin â phryderon a ddaw i'r amlwg, a sicrhau bod lleoliadau addysgol a chyfranogol yn cydymffurfio â safonau uchel, yn unol â gwerthoedd cenedlaethol a gofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Erthygl 34: Dylai'r Llywodraeth amddiffyn plant rhag cam-drin rhywiol.* | X | | Dyma ddiben y Strategaeth. Mae'n ymgorffori pob mathau o gam-drin plant yn rhywiol, yn cynnwys ymddygiad rhywiol niweidiol, camfanteisio rhywiol, cam-drin o fewn y teulu, cam-drin y tu allan i'r teulu, cam-drin rhwng cyfoedion, cam-drin ar-lein a cham-drin all-lein; ac yn wahanol i'r cynllun gwreiddiol, rydym wedi cynnwys oedolion sydd wedi goroesi camdriniaeth rywiol pan oeddynt yn blant, gan gydnabod bod angen sicrhau bod eu hanghenion cymorth yn cael eu diwallu a'u bod yn cael eu grymuso i amddiffyn eu plant eu hunain a phlant yn eu cymunedau/rolau proffesiynol rhag camdriniaeth rywiol.<br><br>Un o'r camau allweddol yw atal cam-drin plant yn rhywiol rhag digwydd trwy godi ymwybyddiaeth ymhlith cymunedau, plant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a gwirfoddolwyr a gweithwyr proffesiynol ynglŷn â gwahanol fathau o gam-drin plant yn rhywiol a rhoi gwybod iddynt sut y gallant roi gwybod am eu pryderon.<br><br>Amcan arall y Strategaeth yw ceisio sicrhau bod camdriniaeth o'r fath yn cael ei chanfod yn gynnar a bod modd ymyrryd yn gynnar, ynghyd â hyrwyddo adferiad plant sydd wedi dioddef camdriniaeth rywiol o unrhyw fath. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Erthygl 35: Dylai'r Llywodraeth sicrhau na chaiff plant eu herwgydio na'u gwerthu.* | X | | Cynhwysir camfanteisio'n rhywiol ar blant, caethwasiaeth fodern a masnachu mewn plant yn y Strategaeth; er, rydym yn gweithio gyda meysydd polisi eraill mewn perthynas â chaethwasiaeth fodern a masnachu. Mae'r camau'n cynnwys diweddaru Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan mewn perthynas â masnachu, a datblygu llwybr ar gyfer caethwasiaeth fodern a fydd yn cynnwys plant sydd wedi'u caethiwo mewn caethwasanaeth domestig, llafur dan orfod a chamfanteisio. |
| *Erthygl 36: Dylid amddiffyn plant rhag gweithgareddau a allai niweidio'u datblygiad.* | X | | Mae'r Strategaeth yn anelu at amddiffyn plant yn y mannau lle treuliant amser e.e. all-lein ac ar-lein. Mae'n cynnwys camau ar gyfer codi ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol a'r effaith a gaiff, gan rymuso plant i roi gwybod am unrhyw bryderon sydd ganddynt. Hefyd, mae'n cynnwys camau ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad rhywiol niweidiol ac aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. |
| *Erthygl 39: Dylai plant sydd wedi dioddef esgeulustod neu gamdriniaeth gael cymorth arbenigol i adfer eu hunan-barch.* | X | | Mae'r Strategaeth yn anelu at sicrhau cymorth teg i blant ac oedolion sydd wedi dioddef a goroesi cam-drin plant yn rhywiol. Mae hyn yn gysylltiedig â gwaith a wneir gan Straen Trawmatig Cymru â'r Hwb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod i ddatblygu a deall arferion sy'n ystyriol o drawma ledled sectorau, er mwyn i weithwyr proffesiynol sy'n cynorthwyo plant |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | allu deall a theilwra'u dulliau yn unol ag anghenion y plant, ar sail y ddealltwriaeth hon. Bydd dulliau sy'n ystyriol o drawma yn cael eu hymgorffori yn y fframwaith hyfforddi Cam-drin Plant yn Rhywiol. |
| *Erthygl 42: Dylai Llywodraethau sicrhau bod plant a rhieni'n ymwybodol o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.* | X | | Ceir cam yn y cynllun cyflawni sy'n ymwneud â gweithio gyda thimau polisi yn y sector addysg i lywio cynnwys gwersi Addysg Rhyw a Chydberthynas, a bydd yn cynnwys y dull presennol sydd wedi'i ymwreiddio ledled ffrydiau gwaith amryfal bolisïau yn Llywodraeth Cymru.<br><br>Gellir cydymffurfio ag Erthygl 42 trwy gyfrwng rhaglenni addysg mewn ysgolion, trwy gyhoeddi deunyddiau hygyrch (megis fersiynau 'addas i blant' o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) a thrwy gydweithredu â sefydliadau fel Comisiynydd Plant Cymru. Mae ymgyrchoedd sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth, ynghyd ag adnoddau Cymraeg a Saesneg a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant, yn sicrhau y caiff gwybodaeth am hawliau plant ei lledaenu'n eang.<br><br>Ymhellach, mae Llywodraeth Cymru yn integreiddio egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng nghwricwlwm ysgolion, gan annog athrawon i drafod hawliau a chyfrifoldebau fel rhan o ddysgu beunyddiol. Mae gwaith ymgysylltu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | rheolaidd gyda phlant a theuluoedd (yn cynnwys ymgynghoriadau a fforymau adborth) yn cynnig cyfleoedd i atgyfnerthu dealltwriaeth o'r Confensiwn. Trwy ymwreiddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn ymarfer a pholisi cenedlaethol, mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod plant a rhieni yn cael gwybod beth yw eu hawliau a'u bod hefyd yn cael eu cynorthwyo i arfer yr hawliau hynny yn eu bywydau beunyddiol. |

- **Sut y bydd eich dadansoddiad o'r effeithiau hyn yn llywio eich cyngor gweinidogol?**

Ar sail ein hasesiad, disgwylir y bydd y strategaeth deg mlynedd ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol yn esgor ar ganlyniadau cadarnhaol sylweddol i blant a hefyd i'r oedolion sy'n eu cynorthwyo. Bydd y mesurau arfaethedig yn gwella mynediad, profiadau a chanlyniadau teg i blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, gan gydweddu â phum egwyddor 'Y Ffordd Gywir' (Comisiynydd Plant Cymru). Ymhellach, mae'r strategaeth yn cynnal hawliau plant fel y'u nodir yn Erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Bwriad cyffredinol y cynigion yw hyrwyddo llesiant plant er mwyn gwneud plant yn llai agored i ddioddef camdriniaeth, ynghyd â chymryd camau i atal camdriniaeth, pennu gofynion yn ymwneud ag amddiffyn plant ac ymateb i blant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu sydd wedi cael eu cam-drin, a chefnogi'r oedolion sy'n rhoi gofal a chymorth iddynt.

Bydd y strategaeth deg mlynedd yn cael ei chyhoeddi gyda chynllun cyflawni tair blynedd. Bydd gweithrediad a chanlyniadau'r strategaeth yn cael eu monitro trwy gyfrwng strwythur sy'n cynnwys Bwrdd Goruchwylio a Gweithredu Strategol (a gadeirir gan Lywodraeth Cymru), grŵp cynghori ar bolisïau oddi mewn i Lywodraeth Cymru ar gyfer rheoli materion trawsbynciol, grŵp cynghori plant a phobl ifanc, a grŵp cynghori dioddefwyr-oroeswyr.

Aethpwyd ati i ymgorffori adborth gan blant a phobl ifanc yn y Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad a gyhoeddwyd, ac adlewyrchir yr adborth hwnnw yn fersiwn derfynol y Strategaeth. Cyhoeddir fersiwn ar gyfer Plant a Phobl Ifanc,

fersiwn Hawdd ei Deall a fersiwn Iaith Arwyddion Prydain ochr yn ochr â'r Strategaeth a'r cynllun cyflawni a'r asesiad effaith hwn.

Bob blwyddyn dros oes y Strategaeth, bydd y Grŵp Cynghori Plant a Phobl Ifanc yn cael crynodeb o'r cynnydd lle nodir y pethau a wnaethom mewn ymateb i'r materion a godwyd gan y grŵp. Pan fyddwn yn defnyddio dulliau ymgysylltu ac ymgynghori eraill e.e. arolygon, digwyddiadau ac ati, byddwn yn sicrhau bod y ffurflen 'Fe ddywedoch chi, fe wnaethom ni' yn cael ei chyhoeddi a'i rhannu.

Ceir cyfleoedd rheolaidd i adolygu a diweddaru'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, yn cynnwys:

- Crynodebau blynyddol o'r cynnydd.
- Adolygiadau cynhwysfawr o'r cynnydd, bob tair blynedd.

Efallai y bydd y ddwy broses yn mynnu y bydd angen diwygio'r Strategaeth a'r cynllun cyflawni, gan ysgogi adolygiad cyfatebol o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Bydd swyddogion yn y tîm Diogelu ac Eirioli yn gyfrifol am ddiweddaru'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant pan fo angen. Bydd gwefan yn cael ei datblygu ar gyfer y Strategaeth a'r gwaith cysylltiedig, ac yn y fan honno bydd modd dod o hyd i fersiynau diweddaraf yr holl ddogfennau hyn mewn fformatau hygyrch.

**Monitro ac Adolygu**

Diweddarwyd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar ôl cynnal ymgynghoriad ac adolygiad cyflym. Ond byddwn yn adolygu'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant bob tair blynedd er mwyn sicrhau y bydd yn parhau i gyd-fynd â'r gwerthusiad o'r Strategaeth.